24 Cathedral Road / 24 Heol y Gadeirlan
Cardiff / Caerdydd
CF11 9LJ
Tel / Ffôn: 029 2032 0500
Fax / Ffacs: 029 2032 0600
Textphone / Ffôn testun: 029 2032 0660
info@audit.wales / post@archwilio.cymru
www.audit.wales / www.archwilio.cymru

Please contact us in Welsh or English.

Cysylltwch â ni'n Gymraeg neu'n Saesneg.

Y Cynghorydd D T Davies
Cadeirydd Awdurdod Tân ac Achub De Cymru
Parc Busnes Forest View
Llantrisant
CF72 8LX

**Cyfeirnod:** 273A2017-18

**Dyddiad cyhoeddi:** 30 Tachwedd 2017

Annwyl Gynghorydd Davies

# Llythyr Archwilio Blynyddol – Awdurdod Tân ac Achub De Cymru 2016-17

Mae'r llythyr hwn yn crynhoi'r negeseuon allweddol sy'n deillio o'm cyfrifoldebau statudol o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 a'm cyfrifoldebau adrodd o dan y Cod Ymarfer Archwilio.

## Cydymffurfiodd yr Awdurdod â'i gyfrifoldebau yn ymwneud ag adroddiadau ariannol a defnyddio adnoddau

Cyfrifoldeb yr Awdurdod yw:

- rhoi systemau rheolaeth fewnol ar waith i sicrhau rheoleidd-dra a chyfreithlondeb trafodion a sicrhau bod ei asedau'n ddiogel;
- cadw cofnodion cyfrifyddu cywir;
- paratoi Datganiad Cyfrifon yn unol â gofynion perthnasol; a
- sefydlu ac adolygu'n barhaus drefniadau priodol i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran ei ddefnydd o adnoddau.

Mae Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 yn ei gwneud yn ofynnol i mi:

- roi barn archwilio ar y datganiadau cyfrifyddu;
- adolygu trefniadau'r Awdurdod i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran ei ddefnydd o adnoddau; a

- rhoi tystysgrif yn cadarnhau fy mod wedi cwblhau'r broses o archwilio'r cyfrifon.

Mae awdurdodau lleol yng Nghymru yn paratoi eu datganiadau cyfrifyddu yn unol â gofynion Cod Ymarfer CIPFA/LASAAC ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig. Mae'r Cod hwn yn seiliedig ar Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol.

Ar 27 Medi 2017 rhoddais farn archwilio ddiamod ar ddatganiadau cyfrifyddu 2016-17, gan gadarnhau eu bod yn rhoi darlun gwir a theg o sefyllfa ariannol a thrafodion yr Awdurdod a'r Gronfa Bensiwn. Mae fy adroddiad wedi'i gynnwys yn y Datganiad Cyfrifon. Nodwyd y materion allweddol a oedd yn deillio o'r archwiliad o gyfrifon i aelodau'r Awdurdod Tân ar 25 Medi 2017 yn fy Adroddiad ar yr Archwiliad o Ddatganiadau Ariannol[1]. Y materion archwilio pwysicaf oedd:

- Nifer fawr o wallau yn y datganiadau ariannol a'u cydymffurfiaeth â Chod Ymarfer CIPFA.
- Diffyg llwybr archwilio clir a dogfennaeth ategol mewn meysydd allweddol fel y cyfriflyfr ariannol diwedd y flwyddyn a thaliadau pensiwn.
- Roedd Cronfa Bensiwn y Diffoddwyr Tân yn cyfrif am daliadau pensiwn yn ymwneud â Mai 2016-Ebrill 2017 yn natganiadau cyfrifyddu 2016-17, yn hytrach na'r rhai yn ymwneud ag Ebrill 2016-Mawrth 2017. O ganlyniad, cafwyd camddatganiadau nas addaswyd yn y datganiadau cyfrifyddu. Fodd bynnag, ni wnaeth y rhain effeithio ar y farn archwilio.

Cyhoeddais dystysgrif yn cadarnhau bod yr archwiliad o'r cyfrifon wedi'i gwblhau ar 27 Medi 2017.

## Rwy'n fodlon bod gan yr Awdurdod drefniadau priodol ar waith i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran ei ddefnydd o adnoddau

Mae fy ystyriaeth o drefniadau'r Awdurdod i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd wedi bod yn seiliedig ar y gwaith archwilio a wnaed ar y cyfrifon ac rwyf hefyd wedi dibynnu ar y gwaith a gwblhawyd o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009. Bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn tynnu sylw at y meysydd lle nad yw effeithiolrwydd y trefniadau hyn wedi'i brofi eto neu lle y gellid gwneud gwelliannau pan fydd yn cyhoeddi ei Adroddiad Gwella Blynyddol.

O ganlyniad i'r materion a nodwyd yn ystod yr archwiliad ac yr hysbyswyd yr Awdurdod ohonynt ar 25 Medi 2017, bu'n rhaid i ni wneud rhywfaint o waith ychwanegol. Canolbwyntiodd y materion hyn ar ansawdd y datganiadau cyfrifyddu a'r cofnodion ategol.

---

[1] *http://www.southwales-fire.gov.uk/English/aboutus/FA/Documents/2017-09-25%20Agenda%20No%206.iii%20-%20Appendix%201%20-%20ISA260%20-%20SWFRA%20Audit%20of%20Financial%20Statements%20Report%20FINAL.pdf*

O ganlyniad, codir ffioedd o £3,711 yn ogystal â'r ffi amcangyfrifedig o £57,022 a nodwyd yng Nghynllun Archwilio 2017. Bydd ffi amcangyfrifedig 2017-18 o fewn paramedrau graddfa ffioedd awdurdodau tân ac achub, a gaiff eu hamlinellu yng nghynllun ffioedd cyhoeddedig Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer 2018-19.

Yn gywir



Mark Jones
Dros ac ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru

copi i. Huw Jakeway, Prif Swyddog Tân
Sally Chapman, Dirprwy Brif Swyddog
Chris Barton, Trysorydd a Swyddog Adran 151